# Arfer orau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4

# Best practice in the creative arts at key stages 3 and 4

Estyn

## Cefndir

Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o ddeilliannau cenedlaethol mewn celf a dylunio, drama a cherddoriaeth yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Mae pob adran arall o'r adroddiad wedi'i seilio ar ganfyddiadau yn yr ysgolion ag arfer orau, ac nid ydynt yn cynrychioli darlun cenedlaethol.

Mae canfyddiadau'r arolwg wedi'i seilio ar ddadansoddiad o ganfyddiadau o ymweliadau â 30 ysgol uwchradd lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau.

## Background

The report includes a summary of national outcomes in art and design, drama and music at key stages 3 and 4. All other sections of the report are based on findings in the best practice schools, and do not represent a national picture.

The findings of the survey are based on an analysis of findings from visits to 30 secondary schools where pupils achieve well in the arts.

## Cefndir

Yn 2013, lluniodd yr Athro Dai Smith adroddiad i Lywodraeth Cymru ar ‘Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru’.  Darganfu’r Athro Smith fod addysg yn y celfyddydau yn anghyson ar draws Cymru, ond bod y gwaith gorau’n aml yn deillio o arweinyddiaeth eithriadol, ac ar lefel uwchradd, mae cyfyngiadau ar waith creadigol ar draws y cwricwlwm yn rhy aml.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i 12 argymhelliad Smith trwy lansio cynllun gweithredu, Dysgu creadigol drwy’r celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru. Bwriedir i’r cynllun gweithredu gefnogi Cymwys am Oes (Llywodraeth Cymru, 2014), gan amlinellu camau i wella cyrhaeddiad addysgol, ac adeiladu system addysg a fydd yn cyfrannu’n uniongyrchol at economi gryfach, mwy o arloesedd, mwy o greadigrwydd, ac at gyfalaf diwylliannol y genedl. Mae’r cynllun yn mynd ati i ‘roi lle creiddiol i’r celfyddydau yn ein system addysg’ (t.5)

## Background

In 2013, Professor Dai Smith produced a report for Welsh Government on ‘Arts in Education in the Schools of Wales’.  Professor Smith found that arts education is ‘patchy’ across Wales, but that the best work often stems from exceptional leadership, and at secondary level, there are too often constraints on creative work across the curriculum.

The Welsh Government responded to Smith’s 12 recommendations by launching an action plan, Creative learning through the arts – an action plan for Wales.  The plan is designed to support Qualified for Life (Welsh Government, 2014), setting out actions to improve educational attainment, and to build an education system that will directly contribute to a stronger economy, greater innovation, greater creativity, and the cultural capital of the nation. The plan seeks to ‘put the arts at the core of our education system (p.5)’

# Cefndir

Ym Mai 2015, cyhoeddodd Estyn Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar ysgolion ag arfer dda yn y celfyddydau, a chanfu'r canlynol:

- mae'r safonau yn gyffredinol well na'r disgwyl mewn un neu ddau o bynciau'r celfyddydau ym mhob ysgol
- roedd deilliannau'n dibynnu'n helaeth ar arbenigedd a hyder aelod penodol o'r staff
- mae ansawdd y cwricwlwm ar gyfer y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2 yn dibynnu gormod ar siawns yn hytrach nag ar gynllunio'r cwricwlwm yn gadarn
- mae cyflawniad disgyblion yn y celfyddydau, a'u profiad o'r celfyddydau, yn fwy tebygol o fod o safon uchel pan fydd uwch arweinwyr yn rhannu angerdd a gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol

# Background

In May 2015, Estyn published Best practice in teaching and learning in the creative arts at key stage 2.  The report focused on schools with good practice in the arts, and found that:

- standards are generally better than expected in one or two of the arts subjects in each school
- outcomes relied heavily on the expertise and confidence of a particular member of staff
- the quality of the curriculum for the creative arts at key stage 2 depends too much on chance rather than on secure curriculum planning
- pupils' achievement in, and experience of, the arts is more likely to be of a high standard where senior leaders share a passion and vision for the creative arts

# Prif ganfyddiadau

### Deilliannau mewn celf a dylunio yn yr ysgolion mwyaf effeithiol:

Mewn celf a dylunio yng nghyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn archwilio ystod dda o brosesau dau ddimensiwn. Maent yn ymarfer eu medrau'n annibynnol i gyflawni canlyniadau effeithiol mewn paent, pastelau a phensiliau ac, mewn lleiafrif o ysgolion, wrth wneud printiau. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd arfer dda, nid yw disgyblion yn archwilio amrywiaeth ddigon eang o gyfryngau tri dimensiwn a lleiafrif yn unig sy'n defnyddio meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i greu delweddau digidol.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn ennill dealltwriaeth dda o resymau pam y mae artistiaid yn gweithio fel y gwnânt a'r bwriadau sydd wrth wraidd eu gwaith. Defnyddiant eu dadansoddiad o waith artistiaid eraill yn ddychmygus i wella'u gwaith eu hunain.

# Main findings

### Outcomes in **art and design** in the most effective schools:

In art and design at key stage 3, many pupils explore a good range of two-dimensional processes. They practise their skills independently to achieve effective results in paint, pastels and pencils and, in a minority of schools, in printmaking. However, even where there is good practice, pupils do not explore a wide enough range of three-dimensional media and only a minority use information and communication technology (ICT) software to create digital images.

Many pupils at key stage 3 gain a good understanding of why artists work as they do, and the intentions behind their work. They use their analysis of the work of other artists imaginatively to improve their own work.

## Prif ganfyddiadau

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill meistrolaeth gynyddol ar dechnegau a phrosesau fel y gallant gyfleu eu syniadau yn effeithiol.  Mae eu llyfrau braslunio yn archwiliadau personol a bywiog o syniadau a phrosesau.

Trwy ymchwilio ac arbrofi, mae gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn fwyfwy gwreiddiol.  Maent yn gwella'u medrau lluniadu trwy ymateb yn ddychmygus i dasgau lluniadu arloesol a thrwy archwilio technegau yn annibynnol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mireinio'u syniadau trwy ymchwilio'n drylwyr ac maent yn integreiddio'u hastudiaethau o waith artistiaid eraill mewn ffyrdd dychmygus sy'n dangos lefel uchel o ddealltwriaeth.

## Main findings

At key stage 4, most pupils gain increasing mastery of techniques and processes so that they are able to communicate their ideas effectively.  Their sketchbooks are personal and lively explorations of ideas and processes.

Through investigation and experimentation, most pupils' work becomes increasingly more original.  They improve their drawing skills through responding imaginatively to innovative drawing tasks and by exploring techniques independently.  Most pupils refine their ideas by researching thoroughly, and integrate their studies of the work of other artists in imaginative ways that show a high level of understanding.

# Prif ganfyddiadau

**Deilliannau mewn drama yn yr ysgolion mwyaf effeithiol:**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o syniadau mewn perfformio a chonfensiynau amrywiaeth o ffurfiau dramatig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol i lunio darnau syml, perfformiadau byrfyfyr a thablos. Maent yn strwythuro eu perfformiadau i fynegi ystod eang o gysyniadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn archwilio'r defnydd ar symud, ystum, mynegiant yr wyneb, cyswllt llygaid a'r llais gyda brwdfrydedd a medr cynyddol i ddatblygu cymeriadau. Maent yn gweithio'n dda, yn unigol ac mewn grwpiau, i fireinio'u medrau.

# Main findings

**Outcomes in drama in the most effective schools:**

At key stage 3, nearly all pupils show a good understanding of ideas in performing and the conventions of a variety of dramatic forms. Most pupils collaborate effectively to devise simple pieces, improvised performances and tableaux. They structure their performances to express a broad range of concepts. Most pupils investigate the use of movement, gesture, facial expression, eye contact and voice with enthusiasm and increasing skill to develop characters. They work well, individually and in groups to refine their skills.

## Prif ganfyddiadau

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar a chorfforol yn effeithiol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymarfer ac yn perfformio darnau o ddramâu wedi'u sgriptio gydag ymroddiad.  Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r Saesneg yn rhy aml i drafod eu syniadau pan fyddant yn gweithio mewn grwpiau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion hefyd yn arddangos dealltwriaeth dda o fedrau cyfarwyddwyr a thechnegwyr, ac mae lleiafrif ohonynt yn arbrofi'n ddychmygus gyda sain, y llais a goleuadau i greu awyrgylch.

## Main findings

A majority of pupils develop their vocal and physical skills effectively.  Most pupils practise and perform scripted pieces of drama with commitment.  However, a minority of pupils in Welsh-medium schools use English too frequently to discuss their ideas when working in groups.

By the end of key stage 3, many pupils also demonstrate a good understanding of the skills of directors and technicians, and a minority experiment imaginatively with sound, voice and lighting to create atmosphere.

# Prif ganfyddiadau

Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn nodi nodweddion arddulliadol pwysig yng ngwaith ymarferwyr gosod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u cyrff a'u lleisiau'n greadigol gyda rheolaeth, ac yn archwilio symudiadau haniaethol a chynefineg i greu darnau wedi'u dyfeisio sy'n cyfleu syniadau'n effeithiol. Mae'r disgyblion hynny sy'n gweithio gyda'r agweddau technegol ar theatr yn datblygu'u medrau'n dda. Gweithiant yn agos gyda'u cymheiriaid sy'n dilyn y llwybr actio er mwyn gwella'u perfformiadau.

# Main findings

At key stage 4, many pupils identify important stylistic features in the work of set practitioners. Most pupils use their bodies and voices creatively and with control, and explore abstract movement and proxemics to create devised pieces that communicate ideas effectively. Those pupils working with the technical aspects of theatre develop their skills well. They work closely with their peers following the acting route to enhance their performances.

# Prif ganfyddiadau

**Deilliannau mewn cerddoriaeth yn yr ysoglion mwyaf effeithiol:**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u pwyntiau cychwyn unigol, er bod disgyblion yn cyrraedd Blwyddyn 7 gydag amrywiaeth o brofiadau sy'n ehangach mewn cerddoriaeth nag mewn celf a dylunio neu ddrama.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau perfformio'n dda trwy feistroli repertoire mwyfwy beichus.  Trwy ymarfer, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canu ac yn chwarae'n gymwys yn eu rhannau.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn archwilio'r elfennau cerddorol, yn dadansoddi amrywiaeth o arddulliau cerddorol ac yn defnyddio technoleg cerddoriaeth yn effeithiol i gyfansoddi darnau byr.

# Main findings

**Outcomes in music in the most effective schools:**

At key stage 3, many pupils make strong progress from their individual starting points, although pupils arrive in Year 7 with a range of experiences that are broader in music than they are in art and design or drama.  Most pupils develop their performance skills well by mastering an increasingly demanding repertoire.  With practice, most pupils sing and play competently in parts.  Most pupils explore the musical elements, analyse a range of musical styles and employ music technology effectively to compose short pieces.

## Prif ganfyddiadau

Yng nghyfnod allweddol 4, mae mwyafrif o ddisgyblion yn perfformio gyda mynegiant a chywirdeb. Dangosant amgyffrediad sicr o gonfensiynau amrywiaeth fawr o arddulliau cerddorol. Maent yn hunanddisgybledig ac mae ganddynt lawer o gymhelliant i ymarfer, yn annibynnol i sicrhau meistrolaeth dechnegol ac ar y cyd i ddatblygu ymdeimlad o ensemble a pherfformiad. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthuso amrywiaeth o ffurfiau ac arddulliau cerddorol mwyfwy cymhleth yn feirniadol. Maent yn gwrando'n wybodus i gymharu a chyferbynnu gwahanol berfformiadau o'r un darn, gan ddefnyddio ymatebion wedi'u rhesymu'n dda. Fodd bynnag, mewn ychydig ysgolion lle mae disgyblion yn cyflawni'n dda, roedd disgyblion ar eu colled mewn gweithgareddau gwerthuso oherwydd eu medrau llythrennedd.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cyfansoddi darnau gyda chryn wreiddioldeb sy'n tynnu ar eu cryfderau eu hunain fel perfformwyr. Mewn llawer o ysgolion llwyddiannus, mae disgyblion yn defnyddio technoleg yn effeithiol iawn i lunio cyfansoddiadau.

## Main findings

At key stage 4, a majority of pupils perform with expression and precision. They demonstrate a sound grasp of the conventions of a wide variety of musical styles. They are self-disciplined and well-motivated to rehearse, both independently to ensure technical mastery, and collaboratively to develop a sense of ensemble and performance. Many pupils appraise critically a variety of increasing complex musical forms and styles. They listen intelligently to compare and contrast different performances of the same piece, using well-reasoned responses. However, in a few schools where pupils achieve well, pupils' literacy skills let them down in appraisal activities.

Many pupils at key stage 4 compose pieces with a high degree of originality that draw on their own strengths as performers. In many successful schools, pupils use technology very effectively to devise compositions.

# Prif ganfyddiadau

## Cyfraniad addysgu a dysgu effeithiol yn y celfyddydau creadigol at les disgyblion

Mae disgyblion yn gwella'u lles trwy brofiadau strwythuredig yn y celfyddydau. Mae'r celfyddydau'n helpu disgyblion i gynyddu eu hyder a'u hunan-barch, gwella'u medrau cymdeithasol a datblygu eu dealltwriaeth o safbwyntiau pobl eraill. Trwy ddysgu yn y celfyddydau, mae llawer o ddisgyblion yn ennill medrau bywyd pwysig, sef dysgu annibynnol, cynllunio a datrys problemau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt drwy'r celfyddydau i fynegi eu syniadau eu hunain. Mae disgyblion yn sylwi bod ymarfer cyflwyno'u hymatebion personol yn rhoi mwy o hyder iddynt mewn meysydd eraill o fywyd a gwaith yr ysgol. At hynny, dywed disgyblion fod dathlu eu medrau celfyddydol yn gyhoeddus trwy arddangos a pherfformio wedi cael effaith gadarnhaol tu hwnt ar y ffordd y maent yn ystyried eu hunain a'u dyfodol.

# Main findings

## The contribution of effective teaching and learning in the creative arts to pupils' wellbeing

Pupils improve their wellbeing through well-structured experiences in the arts. The arts help pupils to increase their confidence and self-esteem, improve their social skills and develop their understanding of the views of others. Through learning in the arts, many pupils gain important life skills of independent learning, planning, and problem-solving.

Many pupils value the opportunities that the creative arts give them to express their own ideas. Pupils find that practice in presenting their personal responses gives them greater confidence in other areas of school life and work. Furthermore, pupils say that celebrating their arts skills in public through exhibition and performance has had a significantly positive impact on how they view themselves and their future.

# Prif ganfyddiadau

## Safonau yn y celfyddydau creadigol ar draws Cymru

Yng nghyfnod allweddol 3, ar draws Cymru, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 5 neu uwch, mewn celf a dylunio ac mewn cerddoriaeth. Mae cyflawniad disgyblion yn y celfyddydau ychydig yn uwch nag yn y pynciau craidd, sef Saesneg, Cymraeg neu fathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 4, celf a dylunio yw'r mwyaf poblogaidd o blith pynciau'r celfyddydau, gyda thua 25% o ddisgyblion yn dilyn cwrs TGAU ynddo. Bob blwyddyn, mae oddeutu 9% o ddisgyblion yn dilyn cwrs TGAU drama. Cerddoriaeth yw'r lleiaf poblogaidd o blith pynciau'r celfyddydau ar lefel TGAU, gyda rhyw 8% o ddisgyblion yn dewis yr opsiwn hwn. Yn yr ysgolion hynny â darpariaeth o ansawdd uchel, mae'r niferoedd yn aml yn uwch na'r cyfartaleddau hyn.

# Main findings

## Standards in the creative arts across Wales

At key stage 3, across Wales, most pupils achieve the expected level 5 or above in art and design and in music. Pupils' achievement in the arts is a little higher than in the core subjects of English, Welsh or mathematics.

At key stage 4, art and design is the most popular of the arts subjects, with around 25% of pupils entering GCSE. Each year around 9% of pupils take GCSE drama. Music is the least popular of the arts subjects at GCSE, with around 8% of pupils taking this option. In those schools where provision is of a high quality, take up is often higher than these averages.

# Prif ganfyddiadau

Mae llawer o ddisgyblion yng Nghymru sy'n dewis astudio TGAU celf a dylunio, cerddoriaeth neu ddrama yn cyflawni gradd A*-C. Mae cyflawniad disgyblion mewn cerddoriaeth yn well na'r cyflawniad mewn celf a dylunio ac mewn drama. Mae cyflawniad disgyblion ym mhynciau'r celfyddydau yng nghyfnod allweddol 4 yn uwch o lawer na'u cyflawniad mewn Saesneg a mathemateg a mymryn yn uwch na'u perfformiad mewn Cymraeg.

Mewn nifer bach iawn o ysgolion, mae disgyblion yn cyflawni'n dda ym mhob un o dri phwnc y celfyddydau yng nghyfnod allweddol 4. Mae'n fwy cyffredin i ddeilliannau disgyblion fod yn uwch yn un o bynciau'r celfyddydau. Y rheswm am hyn yw bod llwyddiant yr adrannau hyn yn deillio o arweinyddiaeth gadarn ar y pwnc ac addysgu cyson dda. Yn ogystal, ychydig o gydberthynas sydd rhwng yr ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau a'r ysgolion lle y mae gan ddisgyblion gyflawniad uchel yn y pynciau craidd.

# Main findings

Many pupils in Wales who opt for art and design, music or drama at GCSE achieve an A*-C grade. Pupils' achievement in music is better than in art and design and in drama. Pupils' achievement in the arts subjects at key stage 4 is much higher than their achievement in English and mathematics and slightly higher than their performance in Welsh.

In a very few schools, pupils achieve well in all three arts subjects at keys stage 4. It is more usual that pupils' outcomes are higher in one of the arts subjects. This is because the success of these departments is the result of strong subject leadership and consistently good teaching. In addition, there is little correlation between schools where pupils perform well in the arts and those in which pupils perform highly in the core subjects.

# Prif ganfyddiadau

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn ym mhob un o bynciau'r celfyddydau. O'r tri phwnc, mae cyfran uwch o fechgyn yn dewis cerddoriaeth ac mae eu cyflawniad yn well na chyflawniad bechgyn mewn celf a dylunio neu mewn drama.

Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yn cyflawni'n well yn y celfyddydau nag mewn llawer o feysydd pwnc eraill. O dri phwnc y celfyddydau, mae cyfran uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYDd yn dewis dilyn TGAU celf a dylunio yn hytrach na dewis TGAU drama neu gerddoriaeth, ac mae eu cyflawniad yn well. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd a disgyblion nad ydynt yn gymwys yn llai mewn celf a dylunio nag ydyw mewn drama neu gerddoriaeth, ac yn llawer llai na'r bwlch rhwng y ddwy garfan mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith a mathemateg.

# Main findings

At key stage 4, girls' performance is better than that of boys in all of the arts subjects. Of the three subjects, a higher proportion of boys opt for music and their achievement is better than boys' achievement in art and design or in drama.

Pupils eligible for free school meals (eFSM) perform better in the arts than in many other subject areas. Of the three arts subjects, a greater proportion of eFSM pupils choose to take GCSE art and design than opt for GCSE drama or music, and their achievement is better. The gap in performance between eFSM pupils and non-eFSM pupils is smaller in art and design than it is in drama or music, and much smaller for each than the gap in English, in Welsh first language, and in mathematics.

# Prif ganfyddiadau

## Profiadau dysgu yn y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion mwyaf effeithiol

Mewn llawer o adrannau da y celfyddydau, mae'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn ddarpariaeth drwy waith allgyrsiol sy'n gysylltiedig ag asiantaethau ac ymarferwyr celf. Mewn gwersi, nid yw lleiafrif o athrawon yn ymestyn cynnydd disgyblion mwy abl yn ddigon da.

Mewn llawer o adrannau da y celfydyddau, mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn talu sylw digon da i ddatblygiad medrau rhifedd disgyblion. Hyd yn oed lle ceir arfer dda, mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes digon o gyfleoedd mewn celf ac mewn drama i ddisgyblion gynhyrchu gwaith digidol gan ddefnyddio'r cyfryngau digidol.

# Main findings

## Learning experiences in the creative arts in the most effective schools

In many good arts departments the most effective provision for more able and talented pupils is through extra-curricular work linked to arts agencies and practitioners. In lessons, a minority of teachers do not extend the progress of more able pupils well enough.

In many good arts departments, teachers plan well to develop pupils' literacy. However, they do not pay good enough attention to the development of pupils' numeracy skills. Even where there is good practice, in a minority of schools, in art and in drama there are not enough opportunities for pupils to produce creative work using digital media.

# Prif ganfyddiadau

Mewn ysgolion effeithiol, mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn ymwneud â chelf sydd o fudd i ddisgyblion difreintiedig nad oes ganddynt o reidrwydd y manteision gartref sydd gan eu cymheiriaid mwy breintiedig.

Mewn bron pob un o'r ysgolion lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau, mae gan athrawon wybodaeth ragorol am eu pwnc ac mae llawer ohonynt yn ymarferwyr a chyfranogwyr gweithgar yn y celfyddydau. Maent yn esbonio a modelu technegau yn hyfedr, ac maent o ddifrif o safbwynt y trylwyredd a'r ddisgyblaeth sy'n hanfodol ar gyfer cael deilliannau da yn y celfyddydau.

Yn y rhan fwyaf o adran da y celfyddydau, mae athrawon yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu medrau meddwl beirniadol disgyblion. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i werthuso'u gwaith eu hunain a gwneud cynnydd da.

# Main findings

In effective schools, there is a wide range of art-related extra-curricular activities that benefit disadvantaged pupils who may not have the home benefits of their more advantaged peers.

In nearly all departments where pupils achieve well, teachers have excellent subject knowledge, and many are active practitioners and participants in the arts. They explain and model techniques proficiently, and maintain a serious approach to the rigour and discipline essential to good outcomes.

In most good arts departments, teachers focus successfully on developing pupils' critical thinking skills. This helps pupils to develop the skills needed to evaluate their own work and to make good progress.

# Prif ganfyddiadau

## Arweinyddiaeth ar y celfyddydau creadigol yn yr ysgolion mwyaf effeithiol

Ym mhob ysgol lle y mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn y celfyddydau, mae uwch arweinwyr yn rhoi statws uchel i'r celfyddydau ac yn cydnabod pwysigrwydd y celfyddydau wrth ddatblygu ethos cadarn yn yr ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn cefnogi eu hadrannau i alluogi disgyblion ar bob lefel gallu i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Fodd bynnag, ni chaiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei ddefnyddio'n ddigon da i gynorthwyo disgyblion difreintieig i gyflawni'n well yn y celfyddydau.

Ceir arweinyddiaeth gadarn ym mhynciau'r celfyddydau gan arweinwyr canol sy'n aml yn athrawon da a rhagorol, sydd â chryn arbenigedd yn eu pwnc, ac sy'n datblygu eu pwnc yn ddynamig.

# Main findings

## Leadership of the creative arts in the most effective schools

In all the schools where pupils achieve well in the arts, senior leaders give high status to the arts, and recognise the importance that the arts play in developing a strong ethos in the school.

Senior leaders support their departments to enable pupils of all abilities to achieve to the best of their abilities.  However, the Pupil Deprivation Grant is not used well enough to support disadvantaged pupils to achieve more highly in the arts.

There is strong subject leadership from middle leaders who are often good and excellent teachers, with a high level of expertise in their subjects, and a dynamic approach to developing their subject.

## Prif ganfyddiadau

Fodd bynnag, mewn ychydig ysgolion, nid yw arfarniadau adrannol yn dadansoddi addysgu a dysgu yn ddigon da, ac nid yw cynlluniau gweithredu adrannol yn ddigon manwl i amlygu meysydd penodol i'w gwella. Nid oes digon o gyfleoedd am ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon y celfyddydau.

Dim ond mewn ychydig ysgolion y mae uwch arweinwyr yn dechrau ymchwilio'n strwythuredig ddatblygiad dysgu creadigol ar draws yr ysgol i ymateb i adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson 2015).

## Main findings

However, in a few schools, departmental evaluations do not analyse teaching and learning well enough, and departmental action plans are not sharp enough to identify specific areas for improvement. There are not enough opportunities for professional learning for teachers in the arts.

Only in a few schools are senior leaders beginning to investigate in a structured way the development of creative learning across the school as a response to Successful Futures (Donaldson 2015).

# Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

- Ddysgu o'r arfer orau sy'n cael ei disgrifio yn yr adroddiad hwn
- Gwneud yn siŵr bod digon o gyfleoedd mewn gwersi i ddisgyblion mwy abl ymestyn eu dysgu
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, lle y bo'n briodol, mewn gwersi celf
- Gwneud yn siŵr bod adrannau celf yn gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd i greu gwaith celf sy'n datblygu cymwyseddau digidol disgyblion

# Recommendations

**Schools should:**

- Learn from the best practice described in this report
- Make sure that there are enough opportunities in lessons for more able pupils to extend their learning
- Maximise opportunities for pupils to develop their numeracy skills, when appropriate, in arts lessons
- Make sure that arts departments make the best use of opportunities to create art works that develop pupils' digital competences

Estyn



## Argymhellion

- Arfarnu perfformiad disgyblion yn fanwl, ac felly hefyd y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu yn y celfyddydau, i lywio cynllunio adrannol
- Dadansoddi cyfraniad adrannau celf at fedrau disgyblion a datblygu strategaethau ar gyfer dysgu creadigol ar draws yr ysgol
- Gwneud defnydd gwell o'u cyllid grant i gefnogi disgyblion difreintiedig yn y celfyddydau creadigol
- Datblygu darpariaeth ac arfer yn y celfyddydau er mwyn cyfrif am argymhellion Dyfodol Cynaliadwy

## Recommendations

- Evaluate closely pupil performance, and the strengths and areas for development in teaching in the arts to inform departmental planning
- Analyse the contribution that arts departments make to pupils' skills, and develop strategies for creative learning across the school
- Make better use of their grant funding to support disadvantaged pupils in the creative arts
- Develop provision and practice in the arts to take account of the recommendations of Successful Futures

# Argymhellion

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

- Ddarparu mwy o gymorth i ysgolion ddatblygu hunanarfarnu effeithiol a chynllunio effeithiol ar gyfer gwella yn y celfyddydau
- Cynnig profiadau dysgu proffesiynol i athrawon ac arweinwyr pwnc yn y celfyddydau
- Cynorthwyo ysgolion i ddefnyddio cyllid grant yn effeithiol i gefnogi disgyblion difreintiedig a gweithio gydag asiantaethau'r celfyddydau ac ymarferwyr y celfyddydau
- Helpu ysgolion i adolygu datblygiad a dyluniad eu cwricwlwm gyda'r nod o fodloni argymhellion Dyfodol Llwyddiannus

# Recommendations

**Local authorities and regional consortia should:**

- Provide more support for schools to develop effective self-evaluation and planning for improvement in the arts
- Offer professional learning experiences for teachers and subject leaders in the arts
- Support schools in the effective use of grant funding to support disadvantaged pupils and to work with arts agencies and arts practitioners
- Help schools to review their curriculum development and design towards meeting the recommendations of Successful Futures

## Arfer orau

Mae adran ddrama wedi datblygu cynlluniau gwaith sy’n helpu disgyblion i archwilio’u hemosiynau a safbwyntiau pobl eraill trwy amrywiaeth o brosiectau ysgogol. Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion yn archwilio materion fel bwlio, statws a chyfeillgarwch, gorfodaeth a chyfrifoldeb trwy ddyfeisio’u darnau eu hunain ac astudio gwaith dramodwyr. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn parhau i ymchwilio i themâu sy’n ymwneud â materion moesol a chymdeithasol, yn aml trwy gysylltu syniadau mewn gwaith cyd-destunol i themâu sy’n berthnasol i’w bywydau nhw. Hefyd, mae disgyblion yn hybu meddwl agored ac amrywiaeth trwy grŵp drama allgyrsiol sy’n mynd i’r afael â bwlio homoffobig.

Mae lles yn yr ysgolion yn rhagorol. Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac o’r farn bod yr ysgol yn delio’n dda â bwlio. Mae nifer y disgyblion sy’n dewis drama yn uchel. Yn y ddwy flynedd diwethaf, cyflawnodd 100% o ddisgyblion A*-C mewn TGAU drama, ac yn y pedair blynedd diwethaf, enillodd dros 40% o ddisgyblion radd A*-A.

## Best practice

A drama department has developed schemes of work which help pupils to explore their emotions and the viewpoints of others through a range of stimulating projects. At key stage 3, pupils explore issues such as bullying, status and friendship, coercion and responsibility through devising their own pieces and by studying the work of dramatists. At key stage 4, pupils continue to investigate themes that relate to moral and social issues, often by relating ideas in contextual works to themes relevant to their own lives. Pupils also promote open-mindedness and diversity through an extra-curricular drama group which tackles homophobic bullying.

Wellbeing in the school is excellent. Nearly all pupils feel safe at school and think that the school deals well with bullying. The number of pupils opting for drama is high. In the last two years, 100% of pupils achieved an A*-C in drama GCSE, and in the last four years, more than 40% of pupils gained an A*-A grade.

## Arfer orau

Mae adran gerddoriaeth yn addysgu disgyblion y mae Saesneg yn newydd iddynt mewn grwpiau trochi oed cymysg hyd nes bod eu Saesneg a'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol yn ddigon da iddynt integreiddio i'r prif ffrwd. Mae'r disgyblion hyn yn derbyn mwy o ddarpariaeth gerddoriaeth na disgyblion eraill. Mae'r holl weithgareddau cerddorol wedi'u cysylltu'n effeithiol â chaffael iaith a llythrennedd, er enghraifft trwy ddefnyddio drymio i ymarfer patrymau iaith a phwysleisio'r sillafau cywir i wella medrau llefaredd. Mae'r ysgol yn defnyddio'i Grant Amddifadedd Disgyblion i sicrhau bod yr holl ddisgyblion â phrofiad diwylliannol prin y tu allan i'r ysgol yn dysgu offeryn cerdd.

Yn 2015, cyflawnodd yr holl ddisgyblion a oedd yn dilyn y cwrs BTEC y cymhwyster. Fe wnaeth hyn helpu iddynt gyflawni trothwy lefel 2, gan roi gwell cyfle iddynt mewn bywyd.

## Best practice

A music department teaches pupils who are new to English in mixed-age immersion groups until their English and cultural awareness are good enough for them to integrate into the mainstream. These pupils receive more music provision than other pupils. All musical activities are linked effectively to literacy and language acquisition, for example by using drumming to rehearse speech patterns and stressing the correct syllables to improve oracy skills. The school uses its Pupil Deprivation Grant to ensure that all pupils with limited cultural experience outside school learn a musical instrument.

In 2015, all pupils following the BTEC course achieved the qualification. This helped them to achieve the level 2 threshold, giving them better life chances.

## 10 cwestiwn i ddarparwyr

- Pa mor dda ydym ni'n dysgu o'r arfer orau mewn ysgolion eraill?
- Sut gallwn ni greu cyfleoedd i athrawon drafod agweddau ar eu harfer yn y celfyddydau creadigol yn ein hysgol?
- …gydag athrawon yn ein hysgolion cynradd bwydo?
- …gydag athrawon mewn ysgolion uwchradd eraill?
- A ydym ni'n gwneud y defnydd gorau o'r arbenigedd yn ein hadrannau celf? Pa mor dda ydym ni'n ei nodi ac yn rhannu arfer effeithiol ar draws yr ysgol?

## 10 questions for providers

- How well do we learn from the best practice in other schools?
- How can we create opportunities for teachers to discuss aspects of their practice in the creative arts in our school?
- …with teachers in our feeder primary schools?
- …with teachers in other secondary schools?
- Do we make best use of the expertise in our arts departments? How well do we identify this and share effective practice across the school?

## 10 cwestiwn i ddarparwyr

- A yw addysgu yn y celfyddydau yn rhoi digon o her i bob disgybl?
- Beth yw'r ffyrdd gorau i ddisgyblion mewn gwersi celf ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd?
- Sut gallwn ni gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni eu gorau yn y celfyddydau?
- Sut gallwn ni ddatblygu prosesau ar gyfer hunanarfarnu fel eu bod yn amlygu cryfderau a gwendidau allweddol mewn addysgu a dysgu yn ein hadrannau heb fod yn rhy feichus?
- Sut ydym ni'n gwneud yn siwr ein bod yn dewis camau effeithiol ar gyfer gwella, a'n bod yn arfarnu effaith y camau hyn ar gynnydd disgyblion?

## 10 questions for providers

- Does teaching in the arts provide enough challenge for all pupils?
- What are the best ways for pupils in arts lessons to develop their skills in literacy and numeracy?
- How can we support pupils eligible for free school meals to achieve their best in the arts?
- How can we develop processes for self-evaluation so that they identify key strengths and weaknesses in teaching and learning in our departments without being overly burdensome?
- How do we make sure that we select effective actions for improvement, and that we evaluate the impact that these actions have on pupils' progress?

# Cwestiynau...

# Questions…